

2022 Rhif (Cy.)

**GALLUEDD MEDDYLIOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Galluedd
Meddyliol 2005 (Eiriolwyr
Annibynnol o ran Galluedd
Meddyliol) (Cymru) (Diwygio)
2022**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Diwygiwyd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (p. 9) (“Deddf 2005”) gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (p. 18) (“Deddf 2019”) i ddarparu ar gyfer proses newydd ar gyfer awdurdodi trefniadau er mwyn galluogi i ofal neu driniaeth gael ei roi neu ei rhoi i bersonau nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio i'r trefniadau, sy'n arwain at eu hamddifadu o'u rhyddid (“y trefniadau”). Yn benodol, mae Deddf 2019 yn mewnosod Atodlen newydd AA1 yn Neddf 2005, sy'n cynnwys y cynllun gweinyddol newydd ar gyfer awdurdodi'r trefniadau hynny (“Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid”). Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn disodli'r cynllun diogeliadau wrth amddifadu o ryddid a nodir yn Atodlen A1 i Ddeddf 2005.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/852 (Cy. 77)) o ganlyniad i weithredu'r system newydd o Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid a gyflwynwyd gan Ddeddf 2019.

Yn benodol, mae'r diwygiadau yn sicrhau y bydd personau a benodir yn Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (“EAGMau”) yn y system Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd yn ddarostyngedig i'r un gofynion penodi ag y mae EAGMau yn ddarostyngedig iddynt ar hyn o bryd ac y bydd y rheini a benodir felly yn cael eu hawdurdodi i gyflawni swyddogaethau sy'n briodol i'r gofynion a osodir gan Ddeddf 2019.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

2022 Rhif (Cy.)

**GALLUEDD MEDDYLIOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Galluedd
Meddyliol 2005 (Eiriolwyr
Annibynnol o ran Galluedd
Meddyliol) (Cymru) (Diwygio)
2022**

Gwnaed xxx 2022

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru xxx 2022

Yn dod i rym xxx 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 35(2) a (3) ac 36 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [xxx 2022].

**Diwygio Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol
2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd
Meddyliol) (Cymru) 2007**

2.—(1) Mae Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd

(1) 2005 p. 9. Mae adrannau 35 ac 36 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ("y Ddeddf") wedi eu diwygio yn y drefn honno gan baragraffau 3 a 4 o Atodlen 2 i Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (p. 18) ("Deddf 2019"). Mae adran 35(7) o'r Ddeddf yn diffinio "the appropriate authority" fel Gweinidogion Cymru o ran Cymru. Mae adran 64(1) o'r Ddeddf yn diffinio "prescribed".

Meddyliol) (Cymru) 2007(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“ystyr “corff cyfrifol” (“*responsible body*”) yw’r corff cyfrifol fel y’i diffinnir gan baragraff 3 o Atodlen AA1 i’r Ddeddf(2);”;

“ystyr “trefniadau” (“*arrangements*”) yw’r trefniadau y mae Atodlen AA1 i’r Ddeddf yn gymwys iddynt fel y’i diffinnir gan baragraff 3 o Atodlen AA1 i’r Ddeddf.”;

(b) ym mharagraff (2), yn lle “39, 39A, 39C neu 39D o’r Ddeddf” rhodder “a 39 o’r Ddeddf a pharagraffau 42 a 43 o Atodlen AA1(3) iddi”.

(3) Yn rheoliad 5(4) (penodi eiriolwyr annibynnol o ran galluedd meddyliol)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle “y Cynulliad” rhodder “Weinidogion Cymru(5)”;

(ii) yn lle “adrannau 37, 38, 39, 39A, 39C neu 39D o’r Ddeddf” rhodder “adrannau 37, 38 neu 39 o’r Ddeddf neu Ran 5 o Atodlen AA1 iddi”;

(b) ym mharagraff (6)(c), ar ôl “adrannau 37, 38 neu 39 o’r Ddeddf” mewnosoder “neu Ran 5 o Atodlen AA1 iddi,”;

(c) ym mharagraff (7), yn lle “y Cynulliad” rhodder “Gweinidogion Cymru”.

(4) Yn rheoliad 6 (swyddogaethau eiriolwr annibynnol galluedd meddyliol)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person yn cael cyfarwyddyd i weithredu fel EAGM i gynrychioli a chefnogi person (“P”) gan—

(a) corff GIG,

(b) awdurdod lleol, neu

(c) corff cyfrifol.”;

-
- (1) O.S. 2007/852 (Cy. 77), a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/266 (Cy. 29) ac O.S. 2016/211 (Cy. 84).
- (2) Atodlen AA1 i’r Ddeddf fel y’i mewnosodwyd gan adran 4A(5) o Ddeddf 2019.
- (3) Nid yw paragraffau 42 a 43 o Atodlen AA1 i’r Ddeddf fel y’u mewnosodwyd gan adran 4A(5) o Ddeddf 2019 mewn grym eto.
- (4) Rheoliad 5 fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2009/266 (Cy. 29).
- (5) Trosglwyddwyd swyddogaethau’r Cynulliad i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(b) ym mharagraff (3)(a), yn lle “gorff GIG neu gan awdurdod lleol” rhodder “gorff GIG, awdurdod lleol neu gorff cyfrifol”;

(c) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) Nid yw paragraffau (4) i (6) yn gymwys ond mewn cysylltiad ag EAGM y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a) neu (b).”;

(d) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(7) Nid yw paragraff (8) yn gymwys ond mewn cysylltiad ag EAGM y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(c) mewn achos y mae paragraff 42 o Ran 5 o Atodlen AA1 i'r Ddeddf yn gymwys iddo.

(8) Mae swyddogaethau EAGM yn cynnwys—

(a) cynorthwyo P i'r graddau y mae hynny'n ymarferol i gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r trefniadau neu'r trefniadau a argymhellir;

(b) canfod dymuniadau a theimladau P ar y pryd ac yn y gorffennol am y trefniadau neu'r trefniadau a argymhellir a'r credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar P, petai gan P alluedd mewn perthynas â'r trefniadau neu'r trefniadau a argymhellir;

(c) canfod pa foddau eraill o weithredu sydd ar gael mewn perthynas â P, gan gynnwys unrhyw foddau eraill llai cyfyngol;

(ch) pan fo'n briodol, paratoi adroddiad ar gyfer y corff cyfrifol y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(c) mewn perthynas â'r trefniadau neu'r trefniadau a argymhellir, y mae unrhyw gyflwyniadau am y trefniadau neu'r trefniadau a argymhellir y mae'r EAGM yn ystyried eu bod yn briodol wedi eu cynnwys ynddo;

(d) cynnal unrhyw gyswllt â P drwy gydol cyfnod y penodiad y mae'r EAGM a'r corff cyfrifol yn ystyried ei fod yn ymarferol ac yn briodol.

(9) Nid yw paragraff (10) yn gymwys ond mewn cysylltiad ag EAGM y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(c) mewn achos y mae paragraff 43 o Ran 5 o Atodlen AA1 i'r Ddeddf yn gymwys iddo.

(10) Rhaid i'r EAGM gefnogi'r person priodol⁽¹⁾ i—

- (a) cynorthwyo P i'r graddau y mae hynny'n ymarferol i gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r trefniadau neu'r trefniadau a argymhellir;
- (b) canfod dymuniadau a theimladau P ar y pryd ac yn y gorffennol am y trefniadau neu'r trefniadau a argymhellir a'r credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar P, petai gan P alluedd mewn perthynas â'r trefniadau neu'r trefniadau a argymhellir;
- (c) canfod pa foddau eraill o weithredu sydd ar gael mewn perthynas â P, gan gynnwys unrhyw foddau eraill llai cyfyngol;
- (ch) cyflwyno sylwadau i'r person sy'n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi o dan baragraff 24 o Atodlen AA1 i'r Ddeddf;
- (d) pan fo'n briodol, ceisio adolygiad o'r awdurdodiad o dan baragraff 38(3)(b) o Atodlen AA1 i'r Ddeddf neu wneud cais am adolygiad o'r fath ei hun;
- (dd) cyflwyno unrhyw sylwadau sy'n angenrheidiol at ddiben sicrhau hawliau P mewn perthynas â'r trefniadau neu'r trefniadau a argymhellir;
- (e) cynnal unrhyw gyswllt â P drwy gydol cyfnod y penodiad y mae'r EAGM a'r corff cyfrifol yn ystyried ei fod yn ymarferol ac yn briodol;
- (f) pan fo'n briodol, gwneud cais i'r Llys Gwarchod o dan adran 21ZA o'r Ddeddf⁽²⁾.

(11) Yn y rheoliad hwn, ystyr "person priodol", mewn perthynas â pherson y gofelir amdano, yw person o fewn paragraff 42(5) o Atodlen AA1 i'r Ddeddf."

(5) Yn rheoliad 7 (herio penderfyniadau sy'n effeithio ar bersonau sydd â diffyg galluedd), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

(1) Gweler paragraff 42(5) o Atodlen AA1 i'r Ddeddf.

(2) Mae adran 3 o Ddeddf 2019 yn mewnosod adran newydd 21ZA yn y Ddeddf. Bydd adran 21ZA yn disodli adran 21A o'r Ddeddf. Daeth Deddf 2019 i rym ar 16 Mai 2019 at y diben cyfyngedig o alluogi arfer unrhyw bŵer i wneud rheoliadau ond nid yw mewn grym eto fel arall.

“(3) Pan fo’r EAGM wedi ei benodi mewn achos y mae paragraff 42 o Atodlen AA1 i’r Ddeddf yn gymwys iddo, caiff yr EAGM, mewn unrhyw achos pan fo’r EAGM yn ystyried ei bod yn briodol—

- (a) cyflwyno sylwadau i’r person sy’n cynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi o dan baragraff 24 o Atodlen AA1 i’r Ddeddf;
- (b) cynorthwyo P i geisio adolygiad o’r awdurdodiad o dan baragraff 38(3)(b) o Atodlen AA1 i’r Ddeddf neu wneud cais am adolygiad o’r fath ei hun;
- (c) cyflwyno unrhyw sylwadau sy’n angenrheidiol at ddiben sicrhau hawliau P mewn perthynas â’r trefniadau neu’r trefniadau a argymhellir;
- (ch) gwneud cais i’r Llys Gwarchod o dan adran 21ZA o’r Ddeddf neu gynorthwyo P i wneud hynny.”

Enw

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad